# SL(5)320 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (O.S. 1992/613) ("Rheoliadau 1992").

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 1992 i ddileu pŵer awdurdodau bilio yng Nghymru i wneud cais i lys ynadon am ddyroddi gwarant i draddodi dyledwr treth gyngor i garchar. Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu e fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae'r Rheoliadau yn dileu gallu awdurdodau lleol i wneud cais am warant i garcharu dyledwyr treth gyngor i garchar. Er nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r nifer sy'n cael eu carcharu'n flynyddol yn dilyn gwarant o'r fath, bydd y Rheoliadau yn lleihau'r nifer sy'n cael eu carcharu am gyfnod byr.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt rhinweddau uchod.